

"Rwy'n colli fy nghyfnod CPA yn rheolaidd er mwyn cyflenwi i gydweithwyr. Beth allaf wneud am hyn?"

Ni ddylai unrhyw athro gyflenwi ar gyfer cydweithiwr os oedd modd rhagweld yr absenoldeb.

Mae canllawiau manwl ar reolau cyflenwi yn nhaflen wybodaeth UCAC: [Rheolau Cyflenwi: Gweithredu Prin Gyflenwi](#)

Mae'r rheolau ar gyfer amser Cynllunio Paratoi ac Asesu yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol yn hollol glir bod hwn yn amser sydd wedi ei warantu fel rhan o gontract cyflogaeth athrawon. Trwy beidio â darparu Amser CPA digonol byddai'r cyflogwr yn torri'r cytundeb cyflogaeth.

Nid oes hawl defnyddio amser CPA at unrhyw bwrpas arall.

Am ragor o gyngor ar sut i weithredu Amser CPA, darllenwch daflen wybodaeth UCAC: [Amser Cynllunio Paratoi ac Asesu](#)

Os oes angen cyngor pellach arnoch yna cysylltwch ar unwaith ag un o swyddogion UCAC ar 01970 639 950.